# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | C R Evans | M B Lewis |
| L V Walton | | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet dros Addysg
Y Cynghorydd C Richards - Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: C R Doyle, H M Morris a R V Smith

**Swyddogion**
Martin Nicholls - Cyfarwyddwr Lleoedd
Chris Cutforth - Rheolwr Gwaith Cyfalaf (Adeiladau Cyhoeddus)
Jane Whitmore, Rheolwr Partneriaethau, Perfformiad a Chomisiynu
Katei Spendiff - Swyddog Hawliau Plant, Hyfforddi a Datblygu
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd
Kate Jones - Gwasanaethau Democrataidd

## 47 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 48 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2017 yn gofnod cywir.

## 49 ADBORTH GAN Y GWASANAETHAU ADEILADU CORFFORAETHOL AR BARODRWYDD POBL IFANC I WEITHIO. (LLAFAR) (CHRIS CUTFORTH)

Rhoddodd Martin Nicholls a Chris Cutforth gyflwyniad ar lafar a oedd yn amlinellu'r materion y mae'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol wedi'u profi ynglŷn â pharodrwydd pobl ifanc i weithio, yn enwedig wrth recriwtio prentisiaid ifanc.

Amlinellwyd a chyfeiriwyd at faes eang o ddylanwadau a ffactorau'r broses recriwtio, a manylwyd ar amrywiaeth o ystadegau, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- 150 o brentisiaid wedi'u penodi ers 2003
- mae 90% o brentisiaid cymwysedig yn dal i gael eu cyflogi ac mae dros 40% o'r gweithlu presennol yn cyn-brentisiaid
- Mae o gwmpas 10% o'r gweithlu cyfan yn brentisiaid, a chynhelir y broses recriwtio flynyddol yn dilyn cynllunio'r gweithlu a phroffilio'n fanwl
- Proses penodi 5 cam diwygiedig sy'n cynnwys prawf gallu, cyfweliad dros y ffon, llunio'r rhestr fer, prawf ymarferol a chyfweliad wyneb yn wyneb
- Effaith y cynllun prentis modern newydd a chymwysterau NVQ ar oedran y recriwtiaid - 16-17 40%, 18-20 39%, 21+ 21%
- Bydd hyfforddiant ar gyfer yr NVQ yn cael ei ddarparu drwy golegau lleol
- Problemau go iawn â thechnegau cyfweliad/hyfforddi pobl ifanc a'r materion sy'n ymwneud â'u gallu i gyfathrebu'n gywir, yn enwedig yn y cyfweliad dros y ffôn - mae "profiad bywyd" pobl ifanc (18+) i weld yn helpu gyda hyn ac yn eu helpu i fynd i'r afael â phwysau cyfweliadau wyneb yn wyneb
- Diffyg dealltwriaeth pobl ifanc (16-17) o dechnegau cyfweliad sylfaenol, a'r angen i ymchwilio er mwyn paratoi ar gyfer cyfweliad wyneb yn wyneb
- Problemau gyda nifer o bobl nad ydynt yn cwblhau'r prawf gallu (gall fod hyd at 25%) a'r amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar hyn
- Diffyg sgiliau cymdeithasol pobl ifanc a chyngor/arweiniad gan rieni
- Yr angen i ddatblygu cysylltiadau â Thlodi a'i Atal wrth ddatblygu profiadau rhagflas/hyfforddi a chysylltiadau â thîm NEETS a'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Materion sy'n ymwneud â chyllid Cynnydd sy'n cael ei dargedu at ddisgyblion ysgol hŷn - gellid fod yn well ei wario ar ddisgyblion iau
- Digwyddiad sydd ar ddod ar gyfer pobl ifanc, Sgwrs Fawr, a'r cyfle i Adeiladau Corfforaethol fynychu a hyrwyddo'i chyfleoedd
- Adborth o ddigwyddiadau Sgwrs Fawr blaenorol a'r materion a godwyd gan bobl ifanc a oedd yn ymwneud â chyfleoedd cyflogaeth
- Yr angen i godi gobeithion, dyheadau a sgiliau pobl ifanc
- Materion go iawn sy'n ymwneud â recriwtio ar gyfer rhai crefftau oherwydd diffyg ceisiadau a diffyg safon y ceisiadau
- Materion sy'n effeithio ar bresenoldeb a llwyddiant yr Ysgol Grefftau Bore Sadwrn yn Llys Jiwbilî a menter ddiwygiedig newydd y Bws Masnach y gellir ei chyflwyno i'r cymunedau lleol
- Yr angen i gysylltu'r Bws Masnach â diwrnodau a digwyddiadau gyrfaoedd
- Argymhellion Pwyllgor Menter a Busnes Llywodraeth Cymru o 2014 sy'n ymwneud â'r materion hyn (i'w dosbarthu i'r Pwyllgor)
- Materion sy'n ymwneud â'r pythefnos o brofiad gwaith ar gyfer disgyblion ysgol a newid y cynllun o bosibl i gynllun deng wythnos "un diwrnod yr wythnos", a'r manteision posibl i gyflogwyr a myfyrwyr oherwydd y newid hyn
- datblygu "pecyn cymorth" diwygiedig ar gyfer profiad gwaith a'r rhaglen hyfforddiant
- Llwyddiant y cynllun cyn prentisiaeth a'r angen i ehangu
- Effaith debygol y Fargen Ddinesig a'r Morlyn Llanw ar ddiffyg sgiliau lleol a gallu'r awdurdod i barhau â'i raglen adeiladu ei hun
- Yr angen i gynllunio a recriwtio pobl ifanc ar gyfer y crefftau priodol o ganlyniad i'r uchod

- Yr angen i hyrwyddo ac annog "crefftau" yn well fel canlyniad llwyddiannus a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, yn enwedig gyda'r rhieni
- Yr angen i newid agweddau a chanfyddiadau pobl ifanc a rhieni sy'n mynychu'r brifysgol ac yn gweithio am radd nad hyn yw'r ateb i bawb ac nid hwn yw'r unig opsiwn
- Yr angen i hyrwyddo ac annog cyrsiau galwedigaethol
- Hyfforddiant galwedigaethol o safon wael, yn enwedig i blant NEET
- Llwyddiant ein hyfforddiant dwys a gynhaliwyd yng Nglandŵr
- Yr angen i ddatblygu cysylltiadau Adeiladau Corfforaethol â Gyrfa Cymru a BHDA

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion y materion a'r pynciau a restrir uchod yn helaeth, a'r cynigion, y mentrau a'r heriau ar gyfer y dyfodol.

## 50 CYNIGION AR GYFER YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC A RHIENI. (LLAFAR) (JANE WHITMORE & KATIE SPENDIFF)

Rhoddodd Jane Whitmore a Katie Spendiff gyflwyniad powerpoint a oedd yn manylu'r ymagweddau ar hyn o bryd ar gyfer cynnwys a gwaith presennol ar drosglwyddo i oedolaeth.

Mae'r meysydd a amlinellwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys:

- Safle presennol yn Abertawe - gwreiddio CCUHP yn fframwaith polisi'r cyngor
- Defnyddio ymagweddau o safon i gynnwys plant a phobl ifanc - Y Sgwrs Fawr, sy'n sylfaen i safonau cyfranogiad a thechnegau ymholi
- Beth sy'n bwysig i Blant a Phobl Ifanc (PPI) - 8 blaenoriaeth a nodir gan y PPI drwy'r Sgwrs Fawr
- Sut y mae'r PPI eisiau dysgu a chyflawni - sy'n ymwneud â'r ethos, yr amgylchedd ffisegol a dulliau addysgu ysgolion
- Pa feysydd cefnogaeth y mae'r PPI eu hangen er mwyn symud ymlaen
- Pa destunau a phynciau y maent yn dymuno eu hastudio
- Materion a ffactorau sy'n effeithio ar drosglwyddo i'r ysgol uwchradd
- Dyheadau PPI ar gyfer y dyfodol
- Camau Nesaf

Cyfeiriwyd hefyd at bapur a luniwyd gyda'r PPI, sy'n amlinellu'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer gwella i'w helpu i gyflawni, ffynnu a datblygu yn yr ysgol, sy'n cynnwys y canlynol:- cyfleusterau a chyfarpar, opsiynau bwyd/ffreutur, man hamdden a gweithgareddau corfforol, y defnydd o dechnoleg, arddulliau addysgu, dulliau a fformat gwersi, ehangu opsiynau a throsglwyddo a'r chweched dosbarth.

Cyfeiriodd yr aelodau at y materion uchod a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Materion a meysydd a gododd o'r cyflwyniad sydd angen trafodaeth a'u datblygu ymhellach: Cyfraniad/cefnogaeth rhieni a chynnwys, effaith cynigion Donaldson,

cynllun arbrofol 'i Learn', datblygu hyder ac iechyd a lles emosiynol PPI a chodi dyheadau, yr angen i annog PPI i gymryd risgiau ac i asesu sefyllfaoedd.

51 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r cynllun gwaith yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm

**CADEIRYDD**